## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae rheoliadau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. Daw'r diwygiadau a wneir gan reoliad 2 i rym ar 25 Gorffennaf 2020; daw'r rheini a wneir gan reoliad 3 i rym ar 27 Gorffennaf 2020.

Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 2 yn cynnwys darpariaeth—

(a) sy'n caniatáu i atyniadau tanddaearol i ymwelwyr agor, ond bydd yn ofynnol i'r personau sy'n gyfrifol am y mangreoedd gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd;

(b) sy'n dileu'r gofyniad i gau llety gwyliau nad yw'n hunangynhwysol (ond eto bydd y gofyniad i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd yn gymwys);

(c) sy'n dileu'r gofyniad a osodwyd ar unigolion i weithio gartref pan fo'n rhesymol ymarferol;

(d) sy'n egluro y caniateir i esgus rhesymol dros ymgynnull â phersonau eraill gynnwys cael gafael ar unrhyw wasanaethau cyhoeddus a gofal plant, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden o dan oruchwyliaeth i blant.

Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 3 yn cynnwys darpariaeth—

(a) sy'n caniatáu agor amlosgfeydd (yn llawn), sinemâu dan do, salonau ewinedd a harddwch, parlyrau tylino, sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau lliw haul, tyllu'r corff, tatŵio, electrolysis neu aciwbigo, arcedau diddanu, amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau (ond fel uchod, bydd y gofyniad i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd yn gymwys);

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sy'n teithio ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wisgo gorchudd wyneb, yn ddarostyngedig i eithriadau sydd wedi eu rhestru, ac sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi'r ddyletswydd hon;

(c) sy'n llacio'r cyfyngiad ar gynulliadau i ganiatáu ystod ehangach o weithgareddau sy'n ymwneud â gwerthu a gosod eiddo preswyl, megis gweld eiddo sydd wedi ei feddiannu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.